

Atgyweiriadau

Yr hyn sydd ei angen arnoch chi ei wybod

Sut i adrodd am atgyweiriadau

Os oes angen adrodd atgyweiriad arnoch chi dylech chi gysylltu â ni cyn gynted â phosib. Gallwch adrodd am atgyweiriad gan ddefnyddio un o'r ffordd canlynol:



0800 085 7843




info@mvhomes.org.uk
www.mvhomes.org.uk



22 Heol Lansbury
Gellideg
Merthyr Tudful
CF48 1HA

Mewn argyfwng dylech chi gysylltu â ni ar unwaith. Peidiwch ag adrodd y broblem ar-lein.


Beth yw atgyweiriad brys?



Dŵr sy'n dod i gysyllt â chylchedau neu osodiadau trydanol.



Nid yw'ch **unig** doiled yn gweithio



Nid yw'ch system wresogi'n gweithio

Efallai na chaiff hyn ei hystyried yn fater brys yn ystod tywydd twymach




Dŵr yn gollwng ac nid oes modd mynd i'r afael ag ef dros dro a bydd yn achosi difrod sylweddol os na chaiff y broblem ei datrys yn syth.



Dim pŵer trydanol yn y tŷ cyfan.



Y larwm dân neu unrhyw larwm arall yn canu.



Nid oes modd cloi neu ddiogelu drysau a ffenestri ar y llawr gwaelod.



Nid oes modd i chi gael mynediad i'ch cartref o ganlyniad i gollu allweddau neu dorri allweddau.



Graffiti sarhaus a fyddai'n achosi gofid pe bai'n cael ei adael dros nos.



Difrod strwythurol lle y mae perygl y gallai ddychwel



Difrod tân

Ein Hamserlenni

Rydym yn categorio atgyweiriadau'n dri grŵp yn dibynnu ar y math o waith sydd ei angen. Rydym yn anelu at gwblhau'r atgyweiriadau o fewn yr amserlenni canlynol:



Ni fydd unrhyw achlysur pan ddaw atgyweiriad argyfyngus yn atgyweiriad brys neu arferol. Er enghraifft, byddai hyn yn digwydd ar ôl i ni fynychu'r argyfwng a'i ddiogelu ond bydd angen archebu darn er mwyn cwblhau'r atgyweiriad.

Cyflawni'r atgyweiriad

Rydym yn cyflawni atgyweiriadau rhwng 8:00am a 4:15pm ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8:00am a 3:30pm ddydd Gwener.

Pan fyddwch yn adrodd am atgyweiriad byddwn yn dweud wrthy ch chi pryd fydd y gwaith yn debygol o gael ei gyflawni a byddwn yn trefnu apwyntiad cyfleus gyda chi. Rydym yn cynnig pedwar opsiwn ar gyfer apwyntiadau:

	8am	9am	10am	11am	12pm	1pm	2pm	3pm	4pm
1 Drwy'r dydd	Dydd Llun – ddydd Iau: 8:00am – 4:15pm a dydd Gwener 1:00pm – 3:15pm								
2 Bore neu brynhawn	Bore: 8am – 12pm				1pm – 4:15pm (3:15) ar ddydd Gwener				
3 Apwyntiad 1af	AM: 8am					PM: 1pm			
4 Osgoi'r daith i'r ysgol*		9:30am -12pm							

*Mae'r apwyntiad hwn ar gael adeg y tymor yn unig ac mae'n dibynnu ar natur yr atgyweiriad

Dylech sicrhau eich bod gartref ar gyfer unrhyw apwyntiadau sydd gennych chi. Rydym yn deall y gall pethau godi felly os nad oes modd i chi fod yn bresennol ar gyfer apwyntiad rhowch wybod i ni a byddwn yn ei aildrefnu ar eich cyfer.

Beth sy'n digwydd os nad ydych chi gartref pan fyddwn yn mynychu i gyflawni atgyweiriad?

Os ydym wedi mynychu apwyntiad rydym wedi'i drefnu gyda chi ac nid ydych chi yno pan fyddwn yn galw heibio byddwn yn gadael cerdyn yn gofyn i chi gysylltu â ni i aildrefnu'r apwyntiad.

Efallai y bydd rhai amgylchiadau pan na fyddwn yn trefnu apwyntiad ar gyfer cynnal atgyweiriad. Os nad ydych chi gartref pan fyddwn yn galw byddwn yn gadael cerdyn yn gofyn i chi gysylltu â ni o fewn 14 diwrnod i drefnu apwyntiad sy'n gyfleus i chi. Os nad ydym yn clywed gennych chi byddwn yn ceisio eich ffonio. Os nad oes modd i gael gafael arnoch chi caiff y jobyn ei ganslo. Byddwn hefyd yn anfon llythyr atoch chi sy'n esbonio hyn oll.

Atgyweiriadau y gellir ailgodi tâl amdanynt

Os byddwch chi, eich teulu neu ymwelydd yn difrodi rhywbeth rydych chi'n gyfrifol amdano gallem godi arnoch chi am yr atgyweiriadau hyn. Mae enghreifftiau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

	Achosi difrod i'ch cartref ar bwrpas neu ar ddamwain	Socedi wedi'u difrodi, basn sinc wedi'i gracio neu ei dorri, ffenestr wedi'i thorri os cewch eich cloi allan o'ch cartref.
	Eich cartref yn cael ei fandaleiddio gan drydydd parti	Drysau wedi'u torri.
	Addasiadau i'ch cartref neu'ch gardd sydd heb eu hawdurdodi	Dymchwel wal bared neu osod wal bared.
	Glanhau neu glirio cartref neu ardd ar ôl i chi symud allan	Gwaredu sbwriel, hen gelfi neu deganau.

Cyflawni'r atgyweiriad y gellir ailgodi tâl amdanynt

Gallwch naill ai gyflawni'r gwaith eich hun gan ddefnyddio eich contractwr cymwysedig eich hun neu gallwch ofyn i ni am ddyfynbris i gyflawni'r gwaith hwn ar eich rhan.

Cyflawni'r gwaith eich hun neu ddefnyddio eich contractwr

Byddwn yn eich hysbysu am y gwaith sydd angen ei gyflawni a byddwn yn gweithio gyda chi o fewn amserlenni cytûn i gyflawni'r gwaith hwn ac i'r safon ofynnol. Bydd angen i chi gydymffurfio â'r disgwyliadau hyn.

CCM yn cyflawni'r atgyweiriad

Os ydych chi'n dymuno i ni gyflawni'r gwaith yna byddwn yn rhoi amcanbris o gost yr atgyweiriad ac os ydych chi'n cytuno â hyn bydd angen i chi ei dalu cyn gall y gwaith gael ei ddechrau.

Os bydd y gwaith yn achosi risg iechyd a diogelwch byddwn yn cyflawni'r gwaith i sicrhau ei fod yn ddiogel ond byddwn yn codi ffi arnoch chi am wneud hyn.



Manylion eraill....

Beth os bydd y broblem y mae angen ei hatgyweirio yn difrodi eich meddiannau?

Os byddwn yn ymateb o fewn ein hamserlenni a nodir uchod ni fyddwn yn talu am ddifrod i garpedi, addurniadau, llenni a defnyddiau meddal. Byddwn yn ceisio 'gwneud iawn' o'r pethau rydym yn gyfrifol amdanynt megis waliau a nenfydau. Mae'n bwysig iawn bod gennych bolisi yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref ar gyfer sefyllfaoedd fel hyn. Gallwn helpu i'ch cyfeirio i yswiriant fforddiadwy – ewch i'n gwefan am wybodaeth bellach neu siaradwch â'ch swyddog tai.

Beth os na fyddwn yn cyflawni'r atgyweiriadau rydym yn gyfrifol amdanynt?

Mae gofyniad arnom i gyflawni rhai atgyweiriadau brys bach os ydynt yn debygol o effeithio ar eich iechyd neu eich diogelwch. Mae Hawl i Atgyweiriad yn cynnwys atgyweiriadau sy'n costio'n llai na £250 yn unig. Caiff y rhain eu hystyried yn Atgyweiriadau Cymwys ac mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni o fewn amser penodol. Nid yw'r terfyn amser yn berthnasol ar gyfer atgyweiriadau sy'n costio dros £250.

Manylion eraill parhad.....

Os na chaiff yr atgyweiriad ei gyflawni o fewn y terfyn amser yna bydd gennych hawl i ofyn i ni benodi contractwr arall i gyflawni'r gwaith. Pe na bai modd i'r ail gontractwr gwblhau'r gwaith o fewn y terfyn amser ychwanegol yna byddwch yn derbyn iawndal. Swm yr iawndal fydd £10 ac mae wedi'i osod gan ddeddfwriaeth, ynghyd â £2 ar gyfer pob dydd nad oedd yr atgyweiriad wedi'i gyflawni hyd at uchafswm o £50 yr atgyweiriad.

A oes modd i ni gyflawni ein gwelliannau ein hunain?

Oes, gallwch wneud newidiadau ond mae'n rhaid i chi dderbyn caniatâd ysgrifenedig gennym ni yn gyntaf. I wneud hyn bydd angen i chi lenwi ffurflen gais sydd ar gael gan ein swyddfa.

Ni fyddwn yn gwrthod caniatâd heb reswm da ond efallai y byddwn yn rhoi amodau ar y gymeradwyaeth megis bod yn rhaid i'r gwaith gael ei gyflawni mewn ffordd benodol.

Cofiwch: Mae angen derbyn Caniatâd Cynllunio neu gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer rhai mathau o waith. Chi fydd yn gyfrifol am dderbyn y rhain ond gallwn helpu i'ch cyngori o ran a fyddai hyn yn angenrheidiol ai peidio.

Os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gennym ni yna byddwch wedi torri eich cytundeb tenantiaeth a byddwn yn gofyn i chi dderbyn caniatâd ôl-weithredol. Os na fyddwn yn ei gymeradwyo yna byddwn yn gofyn i chi dynnu'r newidiadau i lawr a'u hail-osod yn eu gwedd wreiddiol. Os byddwn ar unrhyw adeg yn meddwl ei fod yn achosi risg iechyd a diogelwch byddwn yn gwneud hyn ein hunain ac yn ail-godi'r tâl am y gwaith arnoch chi.

Ar ddiwedd eich tenantiaeth efallai y bydd modd i chi dderbyn iawndal am welliannau rydych chi wedi'u gwneud i'ch cartref. Byddwch yn derbyn y taliad os oeddech chi wedi derbyn ein caniatâd i wneud y gwaith yn y man cychwyn yn unig.

Cod Ymddygiad

Mae gan ein Tîm Gwasanaethau Eiddo god ymddygiad y maent yn ei ddilyn wrth iddynt ymweld â'ch cartref. Mae copi ar gael ar ein gwefan neu gallwn roi copi i chi pe baech chi'n dymuno.

Fel isafswm, bydd gennym ni gerdyn adnabod, byddwn yn gwrtais, ni fyddwn yn ysmegu nac yn defnyddio eich cyfleusterau heb dderbyn caniatâd gennych chi o flaen llaw.